

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandegai
Nos Iau 20 Mehefin 2019 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cyngorydd Dafydd Owen	Y Cyngorydd Richard Fraser-Williams
Y Cyngorydd Mair Leverett	Y Cyngorydd Huw P Jones
Y Cyngorydd Angharad Williams	Y Cyngorydd Iwan Hywel
Y Cyngorydd Dafydd Roberts	Y Cyngorydd Mary Hayes
Y Cyngorydd Gabrielle Wyn	Y Cyngorydd Jacob Milner
Y Cyngorydd Gwen Griffith	

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Owen Pierce.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai –Cyng. Richard Fraser-Williams wedi gwneud ymholiadau prisiau, ac wedi derbyn 3 amcan bris. Cyngor Gwynedd yn caniatáu y gwaith arfaethedig cyhyd bod yr contractwr hefo'r cymwysterau angenrheidiol. Nid yw'r contractwr lleol hefo'r cymwyster gwaith stryd ar hyn o bryd, ond yn bwriadu cwblhau'r cymwyster yn y dyfodol agos. Y Cyngor yn caniatáu i'r gwaith gychwyn cyn gynted a bu'r modd.
- 3.2** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:
14 Llwybr Main – golau dal yn fflachio;
Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ' Ildiwch' yn fflachio. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd eto.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Cyng. Richard Fraser-Williams, Dafydd Owen ac y Clerc wedi cyfarfod gyda Iwan ap Trefor a'i gydweithiwr o'r adran briffyrdd i drafod canlyniadau'r arolwg. Mae gor-yrru yn amlwg yn broblem yma, gyda gyrwyr yn gyrru 36mya ar gyfartaledd. Nodwyd nifer o wahanol opsiynau, yn cynnwys defnyddio llwybr troed a twmpathau cyflymder. Iwan ap Trefor i drafod yr canlyniadau gyda'i gydweithwyr yn Cyngor Gwynedd, ac i gysylltu hefo'r Cyngor ymhen chwech

- wythnos i drafod y camau nesaf. Diolchwyd y Cyngor. Richard Fraser-Williams, Dafydd Owen ac y Clerc.
- 3.4** Diffibriliwr Tregarth – y Clerc wedi archebu 3 arwydd, a nodwyd doedd ddim yn bosib i osod yr arwyddion ar noson yr hyfforddiant oherwydd tywydd garw. Cyng. Dafydd Owen mewn trafodaethau gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn a'u gosod a lleoliadau priodol.
- 3.5** Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Gynllunio ynglŷn a gosod diffibriliwr yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd nad yw'n bosib ei leoli ar y Neuadd oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Tomos Hughes o'r elusen Achub Calon y Dyffryn ynglŷn a'r trafferth, ac wedi trafod y posibilrwydd o'i leoli yn annibynnol o fewn cwrttil y Neuadd. Cyng. Mair Leverett i gael caniatad gan yr eglwys i'w osod yno, ac y Clerc i ddanfôn cynllun syml i'r Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd i gael caniatad.
- 3.6** Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug –Y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod gyda Cyng. Richard Fraser-Williams ar y safle, ac wedi cysylltu gyda swyddog Cyngor Gwynedd ynglŷn a cael arwyddion. Adroddwyd y byddai'r arwyddion newydd yn gael eu gosod ar y 9ed o Orffennaf.
- 3.7** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – disgwyl diweddariad.
- 3.8** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 3.9** Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei waith ac hoffai rhoi rhodd i ddweud diolch. Cyng. Mair Leverett i drafod ymhellach gyda'r unigolyn.
- 3.10** Adroddwyd fod y ffordd ar waelod Allt St Anns yn warthus – ebost wedi'i ddanfôn eisoes i'r holl Gyngor i hysbysu o'r gwaith arfaethedig sydd i'w gwblhau yn ystod mis Mehefin.
- 3.11** Lôn Drol rhwng Rallt Uchaf a Tŷ'n Llidiart – trafferthion gyda cerbydau yn meddwl bod digon o led ond yn cael eu hunain mewn trafferthion enbyd. Maent yn mynd yn sownd, yn tynnu waliau i lawr a difrodi wyneb y lon, heb sôn am gwneud difrod i'w moduron eu hunain. Cyng. Dafydd Owen wedi ymweld a Swyddog ar y safle, ac meant wedi cytuno i roi arwyddion yno.
- 3.12.** Moelyci – llawer o newidiadau wedi digwydd ar y Mynydd yn dilyn perchnogaeth newydd. Wedi derbyn ebost gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau fod y perchnogion newydd yn gweithio yn agos iawn gyda'r sefydliad, a bod y gwaith sydd wedi gael ei gwblhau (ffensio a giatau newydd, llosgi ayyb) wedi bod yn angenrheidiol. Y Clerc wedi rhannu ddogfen ar grwpiau cyfryngau cymdeithasol.
- 3.13** Ebost Mr Howard-Jones – cais am dogfennau'r Cyngor drwy gyfrwng y Saesneg – penderfynodd Mr Howard-Jones i dynnu ei gais yn ôl oherwydd y costau cysylltiedig. Y Cyngor i adolygu'r polisi iaith yn y cyfarfod blynyddol nesaf.
- 3.14** Nodwyd Cyng. Gwen Griffith fod yno ddim arwyddion ar gyfer diffibriliwr Mynydd Llandygai. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai tebyg i'r rhai sydd yn Tregarth.
- 3.15** Nodwyd Cyng. Mair Leverett bod y llwybr rhwng Bryn a'r Clwb Rygbi wedi gordyfu- Cyng. Dafydd Owen i hysbysu swyddog llwybrau, Cyngor Gwynedd.
- 3.16** Adroddwyd bod cwynion wedi ei dderbyn yngylch yr adeiladau allanol rhwng Pandy a Tan Lon, Tregarth, llawer mwy o geir yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad. Y Clerc i gysylltu hefo'r Adran Gynllunio.

3.17

Adroddwyd bod y gwaith llenwi tyllau ar hyd y lonydd yn warthus, a bod y gwaith ddim yn gael ei selio yn iawn, ac felly ddim yn parhau dim. Y Clerc i hysbysu'r adran priffyrdd, a gofyn iddynt i gwblhau'r gwaith i'r safon priodol yn y dyfodol. Cyng. Richard Fraser-Williams wedi danfon lluniau ymlaen i'r Clerc, y Clerc i'w danfon ymlaen at yr Adran Briffyrdd.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2019'

Cyflwynwyd: Un Llais Cymru – Modylau Dysgu Ar-lein Sylfaenol–Pawb i edrych drwy'r modylau sydd ar gael.

Cyflwynwyd: Un Llais Cymru –Model Broctocol Datrysiadau Lleol – Holl aelodau i ddarllen y ddogfen ac i fabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynwyd: Neuadd Goffa Mynydd Llandygai – Ffurflen gais am rhodd – Cytunwyd i rhoi rhodd o £500 tuag at y costau CCTV. Nodwyd bod y ffurflen gais rhoddion newydd drafftwyd gan y Clerc yn addas, ac i'w gael i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

Cyflwynwyd: Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – y Cynghorwyr i ddanfon unrhyw sylwadau erbyn 11eg o Orffennaf.

Cyflwynwyd: Coed Cadw – Grant o £1,000 tuag at gofal coed – y Clerc i rannu'r wybodaeth ar cyfryngau cymdeithasol.

Cyflwynwyd: Partneriaeth Ogwen - Cynllun Car Trydan – Nodwyd fod y cais grant bellach wedi gael ei gymeradwyo, ac eu bod yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu i gludo pobl i apwyntiadau, cyfleoedd gwirfoddoli, clybiau i'r henoed, ac i ddigwyddiadau penodol.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd gan y Cyng. Dafydd Owen fod G Williams wedi dechrau ar y gwaith torri a glanhau llwybrau. Cyng. Dafydd Owen i holi os oes modd iddo ychwanegu'r gwaith glanhau ffosydd - llawer o ffosydd yn y plwyf angen sylw brys.

5.2 Nodwyd fod yno drafferthion mawr yn yr wythnosau diwethaf gyda 'raves' yn Twnel Tywyll. Mae'r mater bellach yn ddifrifol ac yn berygl mawr. Gwydr wedi cael ei dorri ymhob man, gyda llawer o feicwyr yn cwyno am ddifrod i'w beics. Penderfynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Comisiynydd y Heddlu, a danfon copi at Hywel Williams AS a Sian Gwenllian AC.

5.3 Nodwyd Cyng. Mair Leverett fod yno darn o wair yn Pentref Llandygai yn gael ei dorri gan trigolion y pentref, yn ogystal a Chyngor Gwynedd. Y Clerc i ofyn am rhaglen torri gan Cyngor Gwynedd, rhag dyblygu'r gwaith.

5.4 Y Clerc wedi gofyn wrth y Cyngor i lanhau'r gwlliau yn Mynydd Llandygai yn dilyn derbyn ebost gan Cyng. Richard Fraser-Williams. Y gwaith heb ei gwblhau, y Clerc i ofyn am ddiweddariad.

- 5.5** Nodwyd fod ffordd Dob a Lôn y Wern angen eu torri, Cyng. Dafydd Owen i gysylltu hefo'r Adran Briffyrdd.
- 5.6** Adroddwyd bod Clwb Pel-droed Mynydd Llandygai wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi symud i fyny'r gynghair. Nodwyd bod rhai o drigolion Mynydd Llandygai yn pryderu ynglŷn a'r datblygiadau arfaethedig, e.e. stand newydd ayyb. Pryderon ynglŷn a'r problemau parcio yn ystod gemau, a trafferthion gyda bysus methu pasio oherwydd ceir yn parcio mewn mannau anghyfrifol.
- 5.7** Adroddodd Cyng. Gwen Griffith fod rhaglen 10 mlynedd wedi cychwyn i gael gwared o glymog japan yn Llwybr Main.
- 5.8** Adroddodd y Cyng. Mair Leverett bod y tyllau ar hyd y ffordd ym mhentref Llandygai wedi cael ei baentio, felly yn gobeithio bod y gwaith llenwi ar fin cychwyn.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – Mae'r carped yn yr ystafell gyfarfod wedi cael ei osod. Cafodd y cyfarfod diwethaf ei ohirio tan wythnos nesaf.

Ysgol Llandegai – Ymchwiliad swyddogol yr Ysgol wedi gael ei gwblhau, ac wedi cael canlyniadau da iawn ymhob agwedd. Y Clerc i ddanfôn llythyr i'w longyfarch.

7. Ffurflen Flynyddol 2018-19

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mai.

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

9. Mabwysiadu Dogfennau

Penderfynodd y Cyngor i bawb edrych dros pob ddogfen yn fanwl, ac i ddanfôn unrhyw sylwadau i'r Clerc cyn y cyfarfod nesaf. Y Cyngor i fabwysiadu'r dogfennau yn y cyfarfod nesaf. Llauer o ddogfennau swyddogol wedi cael ei storio yn y Ganolfan yn Nhregarth, y Clerc i drefnu dyddiad cyfleus i ddioli'r dogfennau, ac hynny i alluogi'r Clerc i lunio Cofrestr Asedau.

10. Sedd Wag yn Ward Tregarth

Cadarnhawyd ni dderbyniwyd cais am etholiad ac felly y caiff y Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Y Clerc i hysbysebu'r Sedd eto.

11. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol:

G Williams

£3,192.00

12. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0105/16/LL

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai,
Llandygai

Dymchwel yr adeilad presennol sy'n
cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a
chodi adeilad newydd yn ei le

Penderfyniad:Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0244/16/LL

Tyddyn y Felin, Felin Hen Road,
Estyniad a newidiadau

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/0236/16/LL

Zip World, Chwarel y Penrhyn
Newid defnydd tir ar gyfer
gweithgareddau cartio gyfochrog a'r
ffordd bresennol ynghyd a chodi
clawdd gwahanu
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C19/0370/16/LL

5 Ffrwd Galed, Tregarth
Codi modurdy / storfa
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0371/16/LL

1 Bryniau Terrace, Mynydd Llandygai
Codi estyniad llawr cyntaf yn y cefn
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0408/16/LL

Ynys Ganol, Mynydd Llandygai
Estyniadau a newidiadau
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

13. Ceisiadau Cynllunio

C19/0499/16/LL

Ty Melin, Dob
Codi lolfa haul newydd
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

14. Unrhyw fater brys arall

Dim byd i'w drafod.